Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 339 (Cy. 63)

# ARBED YNNI, CYMRU

## Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) (Diwygio) 2024

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2011 (O.S. 2011/656) (Cy. 94) ("y prif Reoliadau") ac maent wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer eu pwerau o dan adran 15 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990 (p. 27).

Mae rheoliad 3 yn diwygio'r diffiniadau yn y prif Reoliadau. Mae'n ychwanegu diffiniadau newydd ar gyfer "adroddiad aelwydydd islaw'r incwm cyfartalog", "aelwyd incwm is" a "meini prawf cymhwystra iechyd". Mae hefyd yn diwygio'r diffiniad o "budd-daliad sy'n dibynnu ar brawf modd" i gynnwys "lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm".

Mae rheoliad 5 yn diwygio'r meini prawf cymhwystra ar gyfer ceisiadau gweithfeydd o dan y prif Reoliadau. Mae'n estyn cymhwystra i geiswyr o aelwyd incwm is a, phan fo'r ceisydd yn cael budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd neu pan fo o aelwyd incwm is, i anheddau sydd â dosbarthiad ased o 68 neu lai (dosbarthiad tystysgrif perfformiad ynni o D neu lai) pan fo'r ceisydd neu feddiannydd ar yr annedd yn bodloni'r meini prawf cymhwystra iechyd. Mae hefyd yn diwygio'r prif Reoliadau fel y gellir gwneud mwy nag un cais gweithfeydd llwyddiannus mewn perthynas ag annedd.

Mae rheoliad 6 yn cywiro gwall drafftio yn y prif Reoliadau.

Mae rheoliad 7 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â cheisiadau gweithfeydd a wnaed ond na phenderfynwyd arnynt eto neu a wnaed ac a gymeradwywyd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 339 (Cy. 63)

# ARBED YNNI, CYMRU

## Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) (Diwygio) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Mawrth 2024* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *11 Mawrth 2024* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 15(1) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990(**1**).

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) (Diwygio) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2024.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau

(**1**) 1990 p. 27. Diwygiwyd adran 15 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990 gan adran 142 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 (p. 53). Darparodd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fod y swyddogaethau o dan adran 15 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990 i fod yn arferadwy o ran Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol ac yn rhydd rhag y gofyniad am gydsyniad y Trysorlys. Trosglwyddwyd pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 15(1) o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990 i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Mae paragraff 1 o Atodlen 3A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan baragraff 1 o Atodlen 4 i Ddeddf Cymru 2017 (p. 4), yn darparu bod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 15 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990 yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn gydredol ac yn rhydd rhag unrhyw ofyniad am gydsyniad y Trysorlys.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2011(**1**).

**Diwygio'r prif Reoliadau**

**3.** Mae'r prif Reoliadau wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 4 i 6.

**Diwygio rheoliad 2 (dehongli)**

**4.** Yn rheoliad 2—

(a) yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder—

"ystyr "adroddiad aelwydydd islaw'r incwm cyfartalog" ("*households below average income report*") yw'r data a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar incymau aelwydydd ac unigolion o dan adran 4 o Ddeddf Diwygio Lles a Gwaith 2016(**2**);

ystyr "aelwyd incwm is" ("*lower income household*") yw aelwyd sydd ag incwm net, ac eithrio unrhyw incwm o fudd-daliadau neu daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd, sy'n llai na 60% o incwm cyfwerthedig net canolrifol aelwydydd cyn costau tai yn seiliedig ar y data diweddaraf a gyhoeddwyd yn yr adroddiad aelwydydd islaw'r incwm cyfartalog;

ystyr "meini prawf cymhwystra iechyd" ("*health eligibility criteria*") yw person sy'n byw â chyflwr anadlol cronig, cyflwr cylchrediad y gwaed cronig neu gyflwr iechyd meddwl cronig;";

(b) yn y diffiniad o "budd-daliad sy'n dibynnu ar brawf modd"—

(i) ym mharagraff (e), ar y diwedd hepgorer "ac";

(ii) ym mharagraff (f), ar y diwedd mewnosoder "ac";

(iii) ar ôl paragraff (f), mewnosoder—

"(g) lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm (fel y diffinnir "income-based jobseeker's allowance" yn adran 1(4) o Ddeddf Ceiswyr Gwaith 1995(**3**));".

---

(**1**) O.S. 2011/656 (Cy. 94). Diwygiwyd y prif Reoliadau gan O.S. 2013/2843 (Cy. 270) ac O.S. 2018/319 (Cy. 60).

(**2**) 2016 p. 7. Cyhoeddir cyfres yr adroddiad aelwydydd islaw'r incwm cyfartalog ar-lein yn Households below average income (HBAI) statistics - GOV.UK (www.gov.uk) a gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

(**3**) 1995 p. 18. Diwygiwyd adran 1(4) gan adran 59 o Ddeddf Diwygio Lles a Phensiynau 1999 (p. 30) ac Atodlen 7 iddi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio rheoliad 5 (meini prawf cymhwystra)**

**5.** Yn rheoliad 5—

(a) ym mharagraff (2)—

(i) yn lle is-baragraff (b) rhodder—

"(b) os yw'r ceisydd yn feddiannydd ar yr annedd ac—

(i) mae'n cael budd-daliad sy'n dibynnu ar brawf modd, neu

(ii) mae o aelwyd incwm is; ac";

(ii) yn lle is-baragraff (c) rhodder—

"(c) os yw'r asiantaeth ardal wedi ei bodloni bod dosbarthiad ased yr annedd—

(i) yn 54 neu lai, neu

(ii) yn 68 neu lai pan fo'r ceisydd neu feddiannydd ar yr annedd yn bodloni'r meini prawf cymhwystra iechyd.";

(b) hepgorer paragraff (3A).

**Diwygio rheoliad 9 (amodau grant)**

**6.** Yn rheoliad 9(1)(a)(ii), yn lle "baragraff (2)(a) o'r Rheoliad hwn" rhodder "is-baragraff (i)".

**Darpariaethau trosiannol**

**7.** Mae'r prif Reoliadau fel yr oeddent mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2024 yn parhau i fod yn gymwys ar ac ar ôl y dyddiad hwnnw mewn cysylltiad â chais gweithfeydd a wnaed ond na phenderfynwyd arno eto cyn y dyddiad hwnnw ac mewn perthynas â chais gweithfeydd a wnaed ac a gymeradwywyd cyn y dyddiad hwnnw.

*Julie James*
Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru
8 Mawrth 2024

---

Mae diwygiadau eraill i'r adran hon, ond nid yw yr un ohonynt yn berthnasol at ddibenion y Rheoliadau hyn.